Rhodri Glyn Thomas AC/AM
Y Gweinidog dros Dreftadaeth
Minister for Heritage
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

John Walter Jones
Cadeirydd
Awdurdod S4C
Parc Ty Glas
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DU

3 Awst 2007

Annwyl John Walter Jones,

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn croesawu'r cyfle i ymateb i ddogfen ymgynghori Awdurdod S4C *Gwasanaethau Plant yn y Dyfodol Digidol.* Mae S4C yn chwarae rhan hanfodol ym mywyd diwylliannol y genedl. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi croeso brwd i'r dystiolaeth a ddarperir drwy'r ymgynghoriad hwn, sef bod Awdurdod S4C yn parhau i foderneiddio'r gwasanaeth y mae'n ei oruchwylio, yn enwedig ar adeg o newid technolegol cyflym ym maes darlledu a disgwyliadau cynyddol y gwylwyr.

Rwy'n sicr bod y gwasanaeth teledu cynhwysfawr a ddarlledir gan S4C yn un o arfau sylfaenol polisi ehangach y Llywodraeth i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae angen i'r polisi hwn hwyluso'r defnydd o'r iaith mewn meysydd newydd yn ogystal ag agweddau bywyd mwy traddodiadol Cymru. O ran y teledu, mae'r Awdurdod wedi cydnabod yr angen i wasanaethau S4C gydymffurfio a disgwyliadau cynyddol y gwylwyr. Mae'r cynnig i sefydlu sianel benodol i blant yn adlewyrchu'r newidiadau yn y ffordd mae plant yn gwylio'r teledu. Mae eich cynigion hefyd yn adlewyrchu'r newidiadau y bydd holl ddarlledwyr y gwasanaeth cyhoeddus yn eu hwynebu ar ôl troi'n ddigidol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn mai mater i S4C yn y lle cyntaf yw penderfynu sut orau i ymateb i'r heriau hyn. Er hynny, rydym yn gefnogol dros ben i'ch cynnig i sefydlu gwasanaeth newydd i blant. O safbwynt polisi iaith, byddai mantais glir sicrhau bod y gwasanaeth Cymraeg yn un o'r opsiynau sydd ar gaei i bobi ifanc drwy ganllawiau rhaglenni electronig. O safbwynt y Llywodraeth, byddai gwasanaeth sy'n targedu pobi ifanc hefyd yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gryfhau'r Gymraeg ar draws y system addysg. Byddai eich gwasanaeth newydd arfaethedig yn ategu'n benodol ein cynigion i gyflwyno cwricwlwm y cyfnod sylfaen i bob plentyn tair i saith oed. Cawsom ein calonogi gan yr ymrwymiad yn eich dogfen ymgynghori i adlewyrchu gofynion cyfnewidiol y cwricwlwm wrth gynllunio unrhyw wasanaeth newydd.

Mae Llywodraeth *y* Cynulliad, felly, yn gefnogol dros ben i'ch cynnig i sefydlu gwasanaeth penodol newydd a ddarlledir am gymaint o oriau a phosibl ac yn unol â phatrwm sy'n bodloni disgwyliadau rhesymol gwylwyr ifanc. Rydym yn cydnabod hefyd rôl amhrisiadwy gwasanaeth presennol S4C2, sy'n gyfrwng dod a thrafodion y Cynulliad i sylw cynulleidfa ehangach nag a fyddai'n bosibl fel arall. Fel llywodraeth, rydym yn rhoi croeso cynnes i'r bartneriaeth rhwng S4C a'r BBC a greodd y gwasanaeth hwn. Rydym yn rhoi cryn bwys ar sicrhau parhad y gwasanaeth a byddem felly yn annog yr Awdurdod yn daer i barhau i ystyried i ba raddau y gallai datblygiadau technolegol ei gwneud yn bosibl darparu gwasanaethau cyfredol S4C ochr yn ochr â'ch cynigion newydd cyffrous chi am wasanaeth penodol i blant.

Edrychaf ymlaen at glywed mwy am y datblygiad newydd cyffrous hwn yn ystod y misoedd i ddod wrth i'ch cynlluniau ddatblygu.

Yn gywir,

Rhodri Glyn Thomas AC

Gweinidog dros Dreftadaeth